# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 12fed Tachwedd 2018

Presennol: Henry Huws, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Seimon Glyn, Alan Hughes
Ymddiheuriadau: John Davies, Humphrey Williams

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
   a. Cymorth Ariannol:
      Dywedodd y Clerc ei bod yn dal i aros am mantolen Mynwent Rehoborth.
      Pasiwyd I beidio a cyfrannu at Prosiect Plas Carmel Anelog.

4. **Gohebiaethau**:
   a. Derbyniwyd anfoned gan Cyngor Cwynedd am 'Gwasanaeth Achwilio Mewnol' - £132.00 –Pasiwyd i'w dalu.
   b. Gwybyddwyd pawb o lythyr Cyngor Gwynedd o'r bwriad I gau ffordd ger Gors y Wrach Llaniestyn am gyfnod o 14 diwrnod o Tachwedd 5ed.
   c. Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Porthmadog yn gofyn am farn Cynghorau Tref a Chymunedau Llyn ac Eirifondd ar eu dymuniad o wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r fro yn y flwyddyn 2021 neu 2025. Pasiwyd i'r Clerc anfon llythyr yn datgan ein cefnogaeth i'w bwriad.
   ch. Derbyniwyd llythyr a chopi o ddogfen gan Cylch yr Iaith sydd wedi ei gyflwyno I Cyngor Gwynedd ar dwristiaeth

yng Nghwynedd, gyda cais penodol yn ymwneud a pholisi twristiaeth. Mae'r llythyr yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned, felly pasiwyd i'r Clerc anfon llythyr at aelodau Cyngor Gwynedd ein haradl,ac I Arweinydd ac Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd.

d. Derbyniwyd Canllawiau Cynllunio Atodol gan y Cyngor Sir a Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, cafodd y Cynghorwyr gyfle i edrych arnynt.

dd. Derbyniwyd hysbysiad cyhoeddus Adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer Sir Gwynedd gan y Cyngor Sir oedd yn diweddaru y rhai blaenorol gan fod gwall yn y fersiwn Gymraeg. Pasiwyd fod y Clerc yn rhoi yr hysbysiad hyn i'w Arddangos yn siop y Post Tudweiliog.

e. Cais cynllunio C18/0860/46/LL Castell Coch Llangwnnadl. Pasiwyd nad oedd gwrthwynebiad, ond bod angen cwestiynu sut fod stablau ceffylau yn cael ei ystyried yn adeilad amaethyddol?

f. Cais cynllunio C18/0590/46/LL Bryn Villa, Llangwnnadl Pasiwyd I ofyn I'r Swyddogion alw'r cais i'r Pwyllgor Cynlluno oherwydd y teimlad cryf gan y Cynghorwyr fod yr eiddo eisioes yn dy gwag (Ty Haf) a'u bod am greu uned gwyliau ychwanegol

5. **Unrhyw fater arall**:
   Doedd dim i'w drafod.

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 11fed Rhagfyr 2018 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**